

Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Mehefin 5ed 2018 yn Neuadd Sarnau. Yn bresennol oedd Gwynedd Jones (Cadeirydd), Gwenda Morris, Gary Thomas, Eilir Rowlands, Eifion Davies, Meilir Jones, Rita Jones, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerch.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gethin Morris, Dewi Pritchard, Iolo Evans, Gwenda Evans, Alwyn Jones a Maldwyn Jones.

Cydyndeimlwyd a Dewi Pritchard a'r teulu yn dilyn eu profedigaeth yn ddiweddar.

i) Croesawyd Gwynedd Jones i'r gadair a diolchwyd i Gwenda Morris am ei gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf.

ii) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Mai a chafwyd yn gywir.

iii) Datgan Buddiant.

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

iv) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

a) Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol.

Adroddodd y clerch fod y camau cyntaf wedi eu cymryd i sicrhau diogelwch data'r cynghorwyr, staff a'r cyhoedd. Mynegwyd rhwystredigaeth fod cynlleied o arweiniad ar gael a'r diffyg deunydd yn y Gymraeg. Eglurodd y clerch y byddai'n parhau i weithio ar y polisïau, canllawiau ychwanegol a oedd eu hangen.

b) Archwilio asedau'r Cyngor.

Cafwyd cadarnhad fod y llochesi bws wedi cael eu harchwilio ac nid oedd angen unrhyw waith. Cytunwyd ar ddyddiad i'r cynghorwyr Gwynedd Jones, Alwyn Jones, Eilir Rowlands a'r clerch archwilio'r mynwentydd. Nododd y clerch eu bod wedi derbyn manylion am werth yr offer newydd yn Cae Chwarae Llandderfel ac wedi diweddarau'r rhestr asedau a'r polisi yswiriant.

c) Mynwent Llandderfel

Adroddodd y clerch eu bod wedi derbyn cwynion fod sbwriel yn gorlifo o'r bin a bu rhaid mynd yno i'w wagu. Cytunwyd i archebu bin gwastraff gardd ychwanegol i'r fynwent.

ch) i) Cynrychiolydd ar Gorff Llywodraethol Ffederasiwn Cysgod Y Foel

Yn dilyn gohebiaeth flaenorol ynglŷn â chynrychiolaeth ar y Corff Llywodraethol gofynnwyd am farn ynglŷn â'r posibilrwydd o rannu term y llywodraethwyr rhwng Cynghorau Cymuned Llandderfel a Llanycil h.y. cynrychiolydd bob yn ail am ddwy flynedd yn lle pedair. Cytunwyd yn unfrydol i gefnogi'r syniad a gofyn i'r Corff Llywodraethol ofyn am gyngor pellach gan yr Awdurdod

ii) Cynrychiolaeth ar Partneriaeth Penllyn.

Gan fod Gethin Morris yn dymuno camu lawr o'r swydd cytunodd Gwynedd Jones fynychu'r cyfarfodydd ar ran y Cyngor.

d) Ymateb Cyngor Gwynedd i'r cwynion o'r cyfarfodydd diwethaf:-

i) Wal pont Llandderfel – cafwyd cadarnhad fod Ymgynghoriaeth Gwynedd yn trefnu'r gwaith ar y lleoliad yma.

ii) Ffordd Cefnddwysarn i Gwm Main – roedd yr Arolygwr Priffyrdd wedi trefnu i'r gweithlu lenwi'r tyllau.

iii) Creu man pasio ger Ty'n Bryn, Cefnddwysarn - yn anffodus nid oedd gan y Cyngor y gyllideb i weithredu cynllun o'r fath, fodd bynnag os fyddai'r maes carafanau gerllaw yn fodlon ariannu'r gwelliannau mi fyddai'r adran yn barod i drafod y mater ymhellach.

v) Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Cyngor Gwynedd

- i) Rhaglen waith yr adran Priffyrdd ar gyfer mis Mai a Mehefin.
- ii) Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn - Copïau o'r dogfennau ymgynghori cyhoeddus diweddaraf.

b) Un Llais Cymru

- i) Agenda cyfarfod Pwyllgor Ardal Meirionnydd a gynhaliwyd yn Neuadd Gymunedol Llanbedr ar y 23/5/18 a chofnodion y cyfarfod blaenorol.

c) CFFI Sarnau

- i) Derbyniwyd llythyr gan y CFFI yn egluro eu bod wedi cyrraedd eu targed i godi arian ar gyfer y diffib. Amgawyd sic o £1154.90 a oedd yn cyfateb a'r swm net o gost yr offer a'r ddwy anfoneb a oedd yn ddaliadwy. Yn unol â phenderfyniad y Cyngor ym mis Mai 2017 i gefnogi'r CFFI gyda'r cynllun, cytunwyd i dalu'r anfonebau a chynghori'r cwmni yswiriant o'r ased newydd.

ch) Cyfoeth Naturiol Cymru.

- i) Llythyr yn ein cynghori o'r diwrnod agored yng Nghanolfan Hamdden Y Bala ar y 18fed o Orffennaf i gyflwyno'r cynllun i sicrhau fod Llyn Tegid yn ddiogel yn y tymor hir ac yn gallu parhau i wrthsefyll digwyddiadau llifogydd eithriadol.

vi) Ceisiadau Cynllunio.

a) Derbyniwyd y cais cynllunio canlynol a chytunwyd i'w gefnogi:-

C18/0369/04/LL – Dymchwel y ty presennol ac adeiladu ty newydd ar dir y ferm. Pale Bach, Cwm Main.

vii) Materion Ariannol.

a) Ffurflen Archwiliad Blynnyddol.

Yn dilyn archwiliad trwyadl o gyfrifon y Cyngor, derbyniwyd adroddiad yr archwilwyr ariannol. Yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd mynegwyd eu sicrwydd yn nhrefniadau llywodraethu a datganiadau cyfrifyddu'r Cyngor Cymuned ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017-18. Cytunwyd yn unol â gofynion y datganiadau Cyfrifyddu a Llywodraethu yn y ffurflen Archwiliad Blynnyddol. Adroddodd y clerc y byddai'n anfon y ffurflen a'r dogfennau perthnasol ymlaen i'r archwilwyr allanol.

b) Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

Cyngor Gwynedd (rhent cae chwarae Frongoch), Y Cyfnod (hysbyseb), Zoll Medical UK (diffib Sarnau), Pawle & Co (cwpwrdd y diffib), Came & Company (ychwanegu offer newydd cae chwarae Llandderfel).

viii) Materion lleol

Cytunwyd i basio'r materion canlynol ymlaen i Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd.

- a) Yn dilyn cwyn y Cyngor ym mis Hydref 2017 nid oedd y coed ochr draw i Cei Llyn Celyn wedi cael eu torri.
- b) Oherwydd y gôr-yrro i lawr heibio Penucha'r Llan roedd pryder am ddiogelwch plant pentref Llanfor a derbyniwyd cais am arwyddion ychwanegol a marciau ffordd Araf/Slow ar y safle.
- c) Man casglu ysbwriel Nant y Gau, Cwmtirmynach - roedd y safle yn flêr iawn gyda'r biniau yn gorlifo a hen fatres wedi cael ei adael yno. Gofynnwyd a oedd posib clirio'r safle a gosod arwyddion amlwg yn rhybuddio pobl i beidio 'tipio slei bach' gan nad oedd neb yn cymryd sylw o'r arwydd bychan presennol.

**Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Medi 4ydd
yn Neuadd Sarnau am 7.30 y.h.**